Mark James LLM, DPA, DCA
Prif Weithredwr,
*Chief Executive,*
Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP
*County Hall, Carmarthen. SA31 1JP*

**DYDD MERCHER, 5 RHAGFYR 2018**

**AT: HOLL AELODAU'R CYNGOR SIR**

YR WYF DRWY HYN YN EICH GALW I FYNYCHU CYFARFOD O'R **CYNGOR SIR** A GYNHELIR YN **SIAMBR, NEUADD Y SIR, CAERFYRDDIN,** AM **10.00 AM, DYDD MERCHER, 12FED RHAGFYR, 2018** ER MWYN CYFLAWNI'R MATERION A AMLINELLIR AR YR AGENDA SYDD YNGHLWM

*Mark James* DYB

**PRIF WEITHREDWR**

AILGYLCHWCH OS GWELWCH YN DDA

| | |
|---|---|
| **Swyddog Democrataidd:** | **Martin S. Davies** |
| **Ffôn (llinell uniongyrchol):** | **01267 224059** |
| **E-bost:** | **MSDavies@sirgar.gov.uk** |
| **Cyf:** | **AD016-001** |

EICH CYNGOR arleinamdani
www.sirgar.llyw.cymru
YOUR COUNCIL doitonline
www.carmarthenshire.gov.wales

# A G E N D A

1. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.**

3. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.**

4. **LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD AR YR 14EG TACHWEDD 2018.** 5 - 22

5. **CYFLWYNIAD INSIGHT.**

6. **CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).**

7. **CWESTIYNAU GAN AELODAU:-**

**7 .1 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:**

“Yn 2016, dywedodd yr Awdurdod hwn mewn datganiad i'r wasg: "Mae'r cytundeb cydweithio sydd wedi deillio o'r broses gaffael rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, Prifysgol Abertawe a Sterling Health Security Holdings, o fewn consortiwm o bartneriaid gan gynnwys Siemens, Fujitsu, Pfizer, Faithful & Gould, David Morley Architects a Medparc.” A allai Arweinydd y Cyngor ddatgan a oes unrhyw bartneriaid eraill yn y consortiwm, ar wahân i’r rhai a nodwyd uchod?”

**7 .2 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:**

“Mae Arweinydd y Cyngor wedi datgan yn flaenorol nad yw Cyfarwyddwyr Cwmnïau'r Cyd-fenter wedi cael eu pennu eto ac nad yw'r strwythur corfforaethol wedi cael ei ddatblygu gyda'r partneriaid eto i gyflawni'r pentref. A yw Arweinydd y Cyngor bellach mewn sefyllfa i ddweud wrth y Cyngor pwy yw'r Cyfarwyddwyr ac a yw'r strwythur corfforaethol hwnnw wedi cael ei gwblhau?”

**7 .3 CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD ROB JAMES I'R CYNGHORYDD EMLYN DOLE, ARWEINYDD Y CYNGOR:**

“Rhagwelwyd y byddai cam cyntaf y Pentref Llesiant a Gwyddor Bywyd yn agor yn gynnar yn 2021. A yw Arweinydd y Cyngor yn credu eich bod yn unol â'r targed o ran cyflawni'r nod hwn ar hyn o bryd?”

**8. YSTYRIED Y RHYBUDD O GYNNIG CANLYNOL:-**

**8 .1 RHYBUDD O GYNNIG A GYFLWYNWYD GAN Y CYNGHORYDD LOUVAIN ROBERTS**

"Bydd yr holl gynlluniau a gyflwynir gan ddatblygwr preifat ar gyfer adeiladu 3 eiddo neu fwy yn destun amod cyn cynllunio er mwyn sicrhau na fydd datblygwyr yn cael caniatâd cynllunio oni bai eu bod yn cytuno y bydd yr holl ffyrdd sy'n rhan o'r datblygiad yn cael eu mabwysiadu gan yr Awdurdod Lleol ar ôl cwblhau'r gwaith ac felly mae'n rhaid iddynt gydymffurfio â safon y Cyngor Sir o ran yr holl ffyrdd. Swm addas o arian i'w gyflwyno mewn ymddiriedolaeth gan y datblygwr i wneud y gwaith hwn cyn dechrau unrhyw waith adeiladu."

**9. YSTRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:-**

**9 .1 ADOLYGIAD O'R POLISI HAPCHWARAE;** 23 - 84

**9 .2 ADOLYGIAD O'R POLISI TRWYDDEDU.** 85 - 200

**10. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWYD AR 19EG TACHWEDD, 2018.** 201 - 206

**11. AELODAETH PWYLLGORAU**

**11 .1 NODI BOD Y GRWP PLAID CYMRU WEDI ENWEBU'R CYNGHORYDD MANSEL CHARLES I GYMERYD LLE'R CYNGHORYDD ANDREW JAMES AR Y PWYLLGOR CRAFFU DIOGELU'R CYHOEDD A'R AMGYLCHEDD.**

**12. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)**

**12 .1 PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU - 4YDD HYDREF 2018;**

**12 .2 PWYLLGOR SAFONAU - 12FED TACHWEDD 2018;**

**12 .3 PWYLLGOR TRWYDDEDU - 13EG TACHWEDD 2018;**

**12 .4 PWYLLGOR PENODI AELODAY - 14EG TACHWEDD 2018;**

**12 .5 PWYLLGOR CYNLLINIO - 15FED TACHWEDD 2018.**

DS: Mae adroddiadau yn cael eu hargraffu mewn du a gwyn yn unig er mwyn arbed costau. Fodd bynnag mae pob adroddiad ar gael ar-lein fel y gall aelodau o'r Pwyllgor / Cyngor Sir a'r cyhoedd weld lluniau/graffiau mewn lliw.